

# Crewyr Cadw: Celf Comics Adnodd Dysgu Craidd

Canllaw i athrawon ac addysgwyr gan ddefnyddio  
treftadaeth adeileddig a chelf comics ar gyfer dysgu  
#crewyrCadw

Mae Crewyr Cadw yn gyfres o adnoddau i helpu athrawon ac addysgwyr i gyflenwi cwricwlwm dysgu creadigol a rhaglenni Arts Award gyda phlant oedran ysgol. Caiff gweithgareddau eu cynllunio i gael eu defnyddio ar gyfer gwaith sy'n seiliedig ar brosiect ac awgrymir ffyrdd o ddefnyddio adnoddau treftadaeth leol a'r amgylchedd adeiledig fel ysbrydoliaeth. Mae hyn yn cefnogi Pedwar Diben y Cwricwlwm ac mae'n briodol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yr holl ffordd i Gyfnod Allweddol 4, yn ogystal ag ar gyfer y rheini sy'n gweithio tuag at gymwysterau Arts Awards.

# Cynnwys

1. Pam defnyddio treftadaeth adeiledig?
2. Defnyddio'r adnodd hwn
3. Celf comics, nofelau graffig a chartwnau
4. Ble i ddod o hyd i gelf comics, nofelau graffig ac artistiaid comics
5. Pam defnyddio celf comics ar gyfer dysgu?
6. Cynllunio prosiect
7. Pethau i'w hystyried wrth ddewis safle treftadaeth adeiledig
8. Gweithgaredd: Hwyl gyda chomics
9. Gweithgaredd: Mapio'r amgylchedd adeiledig lleol cyn eich ymweliad
10. Gweithgaredd: Datblygu ymwybyddiaeth o le yn ystod eich ymweliad
11. Gweithgaredd: Tynnu llun fel ymchwil
12. Adnoddau pellach yng nghyfres Crewyr Cadw: Celf Comics
13. Alinio gwaith gyda'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol
14. Addasu ar gyfer dysgu cyfunol
15. Dathlu'r prosiect
16. Myfyrio a dysgu
17. Dysgu pellach i bawb

# 1. Pam defnyddio treftadaeth adeiledig?

Mae treftadaeth adeiledig yn cyfeirio at unrhyw adeilad, cofeb, strwythur, gosodiad, pensaernïaeth neu olion a grëwyd gan bobl. Mae hyn yn cynnwys safleoedd cyfoes a hanesyddol. Gallai gynnwys cestyll, safleoedd claddu, meini hirion, llwybrau neu ffyrdd, pontydd, gweithiau celf, yr amgylchedd trefol a hyd yn oed gweithiau diwydiannol fel pyllau glo, cronfeydd dŵr, porthladdoedd a dyfrffyrdd. Yn aml mae stori ddiddorol gysylltiedig gan lefydd o'r fath sy'n berthnasol i'r ffordd yr ydym yn byw heddiw, neu sydd wedi dylanwadu neu gael ei dylanwadu gan y cyflwr dynol.

Ar un adeg roedd pob treftadaeth adeiledig yn newydd ac wedi cael ei chreu gan berson neu grŵp o bobl. Mae yna lawer i'w ddysgu o safleoedd o'r fath, yn enwedig drwy archwilio straeon, pobl a deunyddiau cysylltiedig. Gall treftadaeth adeiledig fod yn fan cychwyn gwych ar gyfer archwilio hanes, gwrthdaro, crefft a datblygiad dynol. Wrth ei defnyddio fel thema ar gyfer prosiect gall hynny helpu pobl i ddysgu am eu treftadaeth adeiledig a datblygu gwerthfawrogiad a gwerth am eu hamgylchedd gan arwain at fwy o ymdeimlad o ddinasyddiaeth.

Mae'r cwricwlwm newydd i Gymru yn hyrwyddo defnyddio adnoddau diwylliannol lleol ar gyfer dysgu. Mae archwilio'r amgylchedd adeiledig ar gyfer gwaith prosiect yn ffordd ardderchog o gyflawni'r nod hwn, ac yn glir mae'n hwyluso *Pedwar Diben* y cwricwlwm. Nod y canllaw hwn yw helpu athrawon ac addysgwyr i deimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio'r amgylchedd adeiledig i hwyluso'r arddull hwn o ddysgu, gan eich galluogi chi i ddatblygu prosiectau o ansawdd uchel gyda disgyblion yn yr ysgol, ac mewn lleoliadau addysg celfyddydol.



## 2. Defnyddio'r adnodd hwn

Mae'r canllaw hwn yn darparu fframwaith i athrawon, artist-addysgwyr a disgyblion i archwilio safleoedd treftadaeth lleol a'r amgylchedd adeiledig ar gyfer ysbrydoliaeth, ac i ddefnyddio hyn fel sbardun ar gyfer gweithgareddau trochol, creadigol, celf comics.

Mae'r gweithgareddau yn yr adnodd hwn wedi cael eu cynllunio i gynhyrchu **deunydd ffynhonnell**, y gellir yna ei ddefnyddio gyda gweithgareddau pellach *Crewyr Cadw: Celf Comics* sy'n mynd gyda'r canllaw hwn (ar gael i gyd ar wefan Cadw). O'u defnyddio gyda'i gilydd fel prosiect, mae'r adnoddau hyn yn cefnogi cynllun ystafell ddosbarth neu weithgareddau stiwdio i alluogi dysgu oddi fewn i lythrennedd, llesiant, y Dyniaethau a'r celfyddydau mynegiannol wrth fewnblannu Fframwaith Cymhwysedd Digidol Cwricwlwm i Gymru.

Defnyddiwch yr adnodd hwn fel canllaw cynllunio prosiect i hwyluso profiadau dysgu arfer gorau. Mae'n cynnwys awgrymiadau i ddynodi safleoedd treftadaeth ac adeiladau i ddarparu oriau o ddysgu ansawdd uchel, a chyingor arfer gorau ynghylch meddwl am y safleoedd hyn yn greadigol. Wrth weithio fel hyn bydd meddwl creadigol, sgiliau ymarferol ac ymarfer myfyriol y dysgwyr yn datblygu.



### 3.Celf Comics, nofelau graffig a chartwnau

Mae Celf Comics yn ddisgyblaeth greadigol sy'n defnyddio **dilyniant** o ddelweddau wnaed â llaw neu'n ddigidol, o bosibl â thestun, i gyfleu stori. Yn aml, cyfeirir at yr arddull hwn o ymarferiad creadigol fel **celf ddilyniannol**. Mae'r ffurf hon ar gyfathrebu wedi cael ei defnyddio ers miloedd o flynyddoedd. Cyn i fodau dynol ddefnyddio darllen ac ysgrifennu, roedd delweddau yn cael eu defnyddio i gyfathrebu straeon neu i gofnodi gweithgaredd. Mae peintiadau ogofau yn cael eu hystyried fel y ffurf gynharaf ar gelf ddilyniannol, gan ddarlunio anifeiliaid a phobl yn cymryd rhan mewn hela. Ymhlith enghreifftiau diweddarach mae gwaith celf ddarluniadol yr Aifft, llawysgrifau darluniadol Tsieina, pensaernïaeth cerfluniaidd Persia, a pheintiadau crefyddol Ewrop. Mae enghreifftiau penodol Ewropeaidd yn cynnwys peintiadau Michelangelo y tu fewn i Gapel y Sistine, cerfiadau ar Golofn Trajan yn Rhufain, Tapestri Bayeux a Chartwnau Raphael.

Mewn hanes mwy diweddar, yn dilyn y chwyldro argraffu, daeth **cartwnau** a chelf comics i fod yn ffurf ar gyfathrebu torfol mewn papurau newydd a chylchgronau, yn enwedig i wneud hwyl am ben rhywbeth. Wrth i brint ddyfod yn fwy hygyrch, cafodd **comics** eu creu yn benodol ar gyfer plant a phobl ifanc yn ogystal ag oedolion gyda ffrwydrad o gyhoeddiadau yn y 1950au.

Ers y 1960au mae straeon a adroddwyd drwy gelf comics wedi datblygu i fod yn gyhoeddiadau mwy o faint, ac felly daeth y **nofel graffig** i fodolaeth. Yn hynod o boblogaidd yn rhyngwladol, mae'r cyhoeddiadau ffuglen a ffeithiol wedi gwneud eu marc yn y farchnad lyfrau. Maen nhw'n defnyddio amrywiaeth enfawr o arddulliau ac yn adrodd amrywiaeth mawr iawn o straeon.




## 4. Ble i ddod o hyd i gelf comics, nofelau graffig ac artistiaid comics

Mae yna gyfoeth o gelf comics ar gael i ddod o hyd iddynt ar-lein ac mewn casgliadau amgueddfeydd. Dyma rai llefydd y gallech eu harchwilio:

- ⇒ The Cartoon Museum, Llundain  
[www.cartoonmuseum.org](http://www.cartoonmuseum.org)
- ⇒ Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth  
[www.library.wales](http://www.library.wales)
- ⇒ National Art Library, Llundain  
[www.vam.ac.uk](http://www.vam.ac.uk)
- ⇒ Prifysgol Dundee  
[www.dundee.ac.uk/museum](http://www.dundee.ac.uk/museum)
- ⇒ Cartoon Art Museum, San Francisco  
[www.cartoonart.org](http://www.cartoonart.org)
- ⇒ Amgueddfa Celf Comics, Brussels  
[www.comicscentre.net](http://www.comicscentre.net)
- ⇒ Amgueddfa Ryngwladol Manga Kyoto, Japan  
[www.kyotomm.jp](http://www.kyotomm.jp)

Dyma rai artistiaid comics y gallech archwilio eu gwaith:

- ⇒ Carol Swain, Cymru
- ⇒ Mumph (Mal Humphreys), Cymru
- ⇒ Leslie Gilbert Illingworth, Cymru
- ⇒ Hirohiko Araki, Japan
- ⇒ Hiromu Arakawa, Japan
- ⇒ Nilah Magruder, UDA
- ⇒ Brian Stelfreeze, UDA
- ⇒ Ashley A Woods, UDA
- ⇒ John Cassidy, UDA
- ⇒ Sara Pichelli, UDA
- ⇒ Jill Thompson, UDA



## 5. Pam defnyddio celf comics ar gyfer dysgu?

Mae celf comics yn ffordd hygyrch iawn ac amlbwrpas o feithrin diddordeb mewn dysgwyr ac mae'n gweithio gydag amrywiaeth o wahanol arddulliau dysgu, gan gynnwys y rheini ag anghenion addysgol arbennig. Ffurf gelf ydyw sy'n trawstorri nifer o ddisgyblaethau, gan ddefnyddio delweddaeth weledol ac iaith i adrodd straeon ac archwilio amrywiaeth eang o bynciau. Mae hyn yn ei wneud yn ddefnyddol ar gyfer gwaith trawsgwricwlaidd. Er enghraifft, yn y cyd-destun hwn, gellir archwilio hanes a daearyddiaeth leol drwy gyfuno adrodd straeon, ysgrifennu straeon, celfyddydau gweledol a dylunio digidol.

Mae defnyddio comics oddi fewn i leoliad dysgu yn cyflwyno cyfleodd ar gyfer dealltwriaeth gyflym ac archwilio iaith. Mae'r straeon yn cael eu harwain gan y gweledol gan fwyaf a geiriau a gaiff eu defnyddio'n ddeallus ond yn gynnil. Mae celf comics yn darparu llawer o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau iaith da a chyfathrebu ysgrifenedig effeithiol ymhlith dysgwyr, yn ogystal ag ysgrifennu creadigol a dawn artistig.

Tra bo celf comics yn weledol, mae'r rhan fwyaf o lyfrau comics wedi eu strwythuro'n dda i mewn i naratif clasurol, ac yn defnyddio iaith syml ond effeithiol. Mae llawer o naratifau comics yn cynnwys datrysiad tuag at eu diwedd sy'n yn arf ardderchog ar gyfer myfyrio ar gynnwys.


Am eu bod mor hygyrch i ddarllenwyr cynnar, gall llyfrau comics a nofelau graffig hefyd ddarparu pont ddefnyddiol i fyfyrwyr sy'n symud ymlaen o lyfrau darluniadol plant i lyfrau heb ddelweddu. Wrth gwrs, mae llyfrau comics a nofelau graffig yn dal eu tir oddi fewn i'r byd cyhoeddi llenyddiaeth. Gall cyflwyno pobl ifanc i'r arddull hwn o ysgrifennu danio diddordeb mewn darllen ochr yn ochr â chynrychiolaeth weledol, mae hynny i'w groesawu.



# Pam defnyddio celf comics ar gyfer dysgu?

Mae tynnu llun yn rhan greiddiol o faes dysgu a phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol yn y Cwricwlwm i Gymru, a bydd creu celf comics yn cefnogi hyn, wrth gwrs. Mae'r cwricwlwm yn argymhell dysgu traws-gwricwlaidd, a defnyddio adnoddau lleol at ddibenion dysgu, ac mae'r fframwaith a ddysgwyd oddi fewn i'r adnodd hwn yn cefnogi hyn, ac yn awgrymu defnyddio'r amgylchedd adeiledig lleol i ysbrydoli gwaith creadigol newydd.

Mae dulliau addysgu Arts Award a Chwricwlwm i Gymru yn hyrwyddo archwilio'r broses greadigol, sy'n golygu fod cam ymchwilio a datblygu'r prosiect yr un mor bwysig â'r prosiect gorffenedig. Mae'r adnodd hwn yn cefnogi'r ffordd hon o ddysgu.



## 6. Cynllunio prosiect

Cafodd y fframwaith ei gynllunio i dywys myfyrwyr ar daith ddilys gan dynnu allan y dysgu o'r broses honno, yn hytrach na chanolbwyntio ar y canlyniad gorffenedig. Er mwyn helpu i gyflawni dysgu da o'r daith greadigol, mae'n ymarfer da i gynllunio'r camau. Amlinelliad o brosiect yw hwn a fydd yn hwyluso llawer o gyfleoedd ar gyfer dysgu o brofiad.

**Cam 1** – Archwilio celf comics (hanesyddol a chyfoes) fel disgyblaeth greadigol. Defnyddio llwyfannau digidol i edrych ar artistiaid a'u gwaith, yn ogystal â defnydd dilyniannol o'r gorffennol. Defnyddio Comics Crewyr Cadw i helpu dysgwyr i ystyried sut y mae straeon am bobl a llefydd yn gallu cael eu hadrodd drwy gelf comics. Dylai dysgwyr gadw llyfr brasluniau o'r prosiect i gadw cofnod o'u teithiau.

**Cam 2** – Dethol darn o dreftadaeth adeiledig sy'n briodol i'ch lleoliad, cymuned a thema eich prosiect. Ymchwilio ac archwilio'r safle hwn cyn ymweld ag ef.

**Cam 3** – Ymweld â'r safle gyda dysgwyr neu eu tywys ar daith dywys ddigidol. Defnyddio'r gweithgareddau i alluogi dysgwyr i archwilio a rhoi eu hystyr eu hunain ar y safle. Wrth gynllunio, meddyliwch am ba ddeunyddiau i'w cymryd ar y daith, er enghraifft, llyfr brasluniau, pensiliau, creonau, deunydd collage, clipfyrddau, pasteli, sialc ac ati. (Dylech fod yn ymwybodol fod pennau ffelt a marcwyr wedi eu gwahardd mewn safleoedd treftadaeth).

Defnyddiwch *Crewyr Cadw: Adnoddau Archwilio Arts Award Explore* a *Darganfod Arts Award Discover* ar yr ymweliad os yw'n gweddu eich prosiect.

**Cam 4** – Defnyddio'r gweithgareddau yn y canllaw hwn ac adnoddau cysylltiedig eraill Crewyr Cadw: Celf Comics i arwain sesiynau sy'n tynnu allan dychymyg a sgiliau craidd y dysgwyr.

**Cam 5** – Rhannu'r prosiect yn ddigidol, mewn arddangosiad neu arddangosfa.

**Cam 6** – Myfyrio ar y dysgu gyda'ch myfyrwyr.

## 7. Beth i'w ystyried wrth ddethol safle treftadaeth adeiledig

Mae safleoedd treftadaeth adeiledig ac adeiladau diddorol diddiwedd gan Gymru sy'n fannau cychwyn ardderchog ar gyfer straeon. Ystyriwch gestyll, safleoedd oes efydd, cofebion, safleoedd diwydiannol, pyllau glo, manau addoli, ffrynt siopau, adeiladau dinesig, safleoedd protestio, olion Rhufeinig, llwybrau, cilffyrdd neu feysydd brwydrau. Mae'n debygol fod yna rywbeth o ddiddordeb lleol o fewn cerdded i'ch ysgol neu weithdy.

Mae'r adran hon yn helpu addysgwyr i ddethol safle a fydd yn darparu ffynhonnell dda o ddeunydd ar gyfer prosiect i ddysgwyr ifanc.

### Pethau i'w hystyried:

- ⇒ **Potensial stori:** Wrth dethol safle, mae'n ddefnyddiol meddwl am y straeon a allai ysbrydoli eich dysgwyr. Ceisiwch feddwl am sut y gallech chi ehangu gwybodaeth pobl am safle penodol. Yn aml, mae safleoedd lleol yn adnabyddus am bwynt penodol mewn hanes, ond meddyliwch am straeon eraill, safbwyntiau neu ddehongliadau eraill a allai wirioneddol ddod â chreadigrwydd y dysgwr i'r wyneb.
- ⇒ **Hygyrchedd:** Mae'n bosibl y byddai'n angenrheidiol meddwl am safleoedd sydd o fewn pellter cerdded hawdd, ac a fydd yn gorfforol hygyrch i bawb yn eich grŵp. Oes modd cael mynediad at y safle ar gyfer dibenion dysgu cyfunol, yn annibynnol gyda rhieni a theuluoedd, neu eu gweld ar-lein? Mae'n bosibl y byddai cysylltiadau â'r safle yn yr amgueddfa, oriel neu archif lleol.
- ⇒ **Ychydig iawn o lefydd** sydd yna yng Nghymru heb damaid sylweddol o dreftadaeth adeiledig o fewn pellter cerdded i'r cartref neu'r ysgol. Mae rhai dalgylchoedd ysgol yn cynnwys nifer o safleoedd, er enghraifft cestyll, bryngaerau, meini hir, cofebau, adeiladau modernaidd neu waith celf cyhoeddus. Mae'n ddefnyddiol dethol safle a allai ddyfod yn ganolbwynt ymweliad ffisegol ar ryw bwynt oddi fewn i'r prosiect.

Defnyddiwch y taflenni gwaith gweithgareddau a'r cwestiynau a awgrymir ar y tudalennau dilynol i feddwl am safle o ddiddordeb. Mae templedi gwag o'r rhain ar gael i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth neu stiwdio, neu yn wir wrth ymweld â'r safle.

## 8. Gweithgaredd: Hwyl gyda chomics

Mae Cadw wedi gweithio gydag amrywiaeth o artistiaid comics Cymru i greu cyfres o gomics sy'n adrodd straeon cymeriadau allweddol yn hanes Cymru. Mae'r rhain ar gael ar wefan Cadw i'w gwyllo ar-lein neu eu printio.

Defnyddiwch y comics hyn i gyflwyno'r syniad am gelf comics a dangos sut mae artistiaid eraill wedi ceisio cael ysbrydoliaeth o dreftadaeth. Mae'r straeon yn hawdd eu darllen, ac mae'r gwaith celf yn cofleidio amrywiaeth o arddulliau artistig a gellir eu lliwio mewn.

Os ydych yn defnyddio'r rhain gyda dysgwyr, ceisiwch ddatblygu dealltwriaeth o **dreftadaeth adeiledig, cymeriadau, a straeon** gyda dysgwyr. Dyma rai awgrymiadau ar gyfer arwain trafodaethau:



- ⇒ Pwy yw'r cymeriadau yn y stori?
- ⇒ Pa fath o bobl ydyn nhw?
- ⇒ Ble maen nhw'n byw?
- ⇒ Beth maen nhw'n ei wisgo?
- ⇒ Beth mae eu dillad yn ei gynrychioli?
- ⇒ Oes baner ganddyn nhw?
- ⇒ Sut ydyn nhw'n teithio?
- ⇒ Pa arfau ydyn nhw'n eu defnyddio?
- ⇒ Ydyn nhw'n gyfoethog neu'n dlawd?
- ⇒ Pa adeiladau sydd yn y comic?
- ⇒ Sut beth yw'r amgylchedd naturiol?
- ⇒ Pwy ysgrifennodd y stori?
- ⇒ Beth sy'n digwydd yn y stori?

Ceisiwch osod y safleoedd sy'n cael eu henwi yn y comics ar fap o Gymru. Efallai fod rhai o'r safleoedd yn amgylchedd lleol y dysgwr.

Darllenwch ddeholiad o'r comics a thynnu llun llinell amser o ba gymeriadau sy'n bresennol a phryd.

Ceisiwch greu diagram o sut mae'r cymeriadau yn y comics yn gysylltiedig â'i gilydd.

## 9. Gweithgaredd: Mapio'r amgylchedd adeiledig lleol cyn eich ymweliad

Mewn grwpiau, neu gyda'r dosbarth i gyd, siaradwch am yr amgylchedd adeiledig a'r hyn maen nhw'n ei ddeall yw ystyr hynny. Gofynnwch iddyn nhw feddwl am beth allwn ei ddysgu gan adeiladau a strwythurau, a sut maen nhw'n bwysig. Mae'n bosibl y bydd cyfle i adael i'r dysgwyr arwain o ran pa feysydd o'r amgylchedd adeiledig sydd o ddiddordeb iddynt wrth archwilio mewn mwy o ddyfnder.

Mae ymchwil ar y we yn werthfawr, hyd yn oed gyda dysgwyr yn y Cyfnod Sylfaen. Treuliwch beth amser gyda nhw yn edrych ar yr amgylchedd adeiledig lleol, er enghraifft, cestyll, bryngaerau, cofebau, ffryntiau siopau, celf stryd, meini hir, llwybrau masnach hanesyddol neu safleoedd diwydiannol.

Mae mapio yn helpu dealltwriaeth weledol o ddaearyddiaeth ardal leol ac mae'n ddefnyddiol i bob grŵp oedran. Rhwch fap blanc o'r ardal leol i'r dysgwyr – ardal dalgylch ysgol neu'r sir leol. Gofynnwch i'r dysgwyr boblogi'r map gyda safleoedd cyfredol perthnasol a chynnwys y dreftadaeth adeiledig a fydd yn ffurfio rhan o'r prosiect, er enghraifft, cestyll a bryngaerau. Defnyddiwch allwedd graffig ar gyfer nodweddion penodol, a labelu'r safleoedd, er enghraifft, trefi a phentrefi cyfredol, afonydd, ffyrdd a'r safleoedd treftadaeth adeiledig.

### Addasu'r dasg hon ymhellach:

#### ⇒ Fframwaith Cymhwysedd

**Digidol:** Gosod tasg ymchwilio ar y we i mewn i adeiladau hanesyddol lleol neu weithgaredd safle, i'w ddatblygu adref. Yn ddibynnol ar ba fath o dempled map a roddir, gall poblogi lleoedd fod yn dasg ddigidol.


⇒ **Cyfnod Allweddol 3 a 4:** Mae ecoleg a daearyddiaeth ardal yn mynd i fod yn gysylltiedig â'i threftadaeth. Trafodwch sut mae treftadaeth a thirlun yn dylanwadu ar ei gilydd.

⇒ **Gwaith Cartref neu Ddysgu Cyfunol:** Gofynnwch i'r dysgwyr gyfweld â theulu neu ffrindiau am safleoedd yr ardal leol sy'n cael eu harchwilio gan y prosiect. Mae hyn yn datblygu sgiliau cyfathrebu ac yn rhoi profiad o gasglu data gwreiddiol.

## 10. Gweithgaredd: Datblygu ymwybyddiaeth o le yn ystod eich ymweliad

Dechreuwch gyda gweithgaredd map meddwl i archwilio ystyr safle. Nod y gweithgaredd hwn yw bod dysgwyr yn cael profiad amsynhwyraidd yn ystod eu hymweliad, gan feddwl am weld, clywed, aroglu a chyffwrdd.

Dyma rai cwestiynau i'w gofyn i'r dysgwyr. Gwahoddwch nhw i ymateb fel pe bydden nhw'n ateb ar ran yr adeilad neu'r safle:



# Gweithgaredd: Datblygu ymwybyddiaeth o le yn ystod eich ymweliad

## Cyfnod Allweddol 1 a 2

Cwestiwn i'r adeilad neu'r safle	Ymateb
Beth ydw i?	
Ble ydw i?	
Pwy a'm hadeiladodd i?	
Pam gefais fy adeiladu fan hyn?	
Pwy oedd yn byw/gweithio yma?	
Pwy ymwelodd â mi	
Pryd a sut y cefais fy adeiladu?	
O ba ddeunyddiau y cefais fy ngwneud?	
Beth sydd o'm cwmpas?	
Sut ydw i wedi newid dros amser?	
Ydy'r dirwedd wedi newid dros amser?	
Pwy sy'n parhau i ddod yma?	
Beth sy'n tyfu arnaf i?	
Sut arogl sydd arnaf i?	
Pa sŵn ydw i'n ei wneud?	
Beth ydw i wedi ei weld neu ei glywed?	
Beth yw fy ngwerth?	
Ydw i'n brydferth?	

# Gweithgaredd: Datblygu ymwybyddiaeth o le yn ystod eich ymweliad

Addaswyd ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 a 4

Cwestiwn i'r adeilad neu'r safle	Ymateb
Beth yw fy mhwrpas?	
Faint o dystiolaeth sydd yna o ryngweithio dynol fan hyn?	
Oedd yna ddigwyddiad a pham wnaeth y digwyddiad ddiwydd?	
Beth yw fy nghynllun neu arddull bensaernïol?	
Pam ydw i wedi cael fy adeiladu yma?	
Sut beth oeddwn i pan oeddwn i'n newydd?	
O ba ddeunyddiau y cefais fy ngwneud ac o ble'r oedden nhw'n dod?	
Pam gafodd y deunyddiau hynny eu defnyddio?	
Ydw i wedi cael fy nhrwsio?	
Pwy a'm gwnaeth a beth oedd eu sgiliau?	
Pa artistiaid a chrefftwyr oedd yn gweithio yma?	
Oedd yna anghydfod yn berthnasol i'r lle hwn?	
A gafodd yr anghydfod ei ddatrys?	
Sut gafodd pobl eu trin fan hyn?	
Beth ydw i wedi bod yn dyst iddo?	
Gyda pha wleidyddiaeth (nawr ac yn y gorffennol) ydw i'n gysylltiedig?	
Ydy'r tywydd wedi fy newid?	
Ydw i'n gysylltiedig â brwydr neu gamwedd?	
Pwy sy'n dod yma nawr?	
Pam ydw i'n bwysig nawr?	
Fyddaf i'n fwy pwysig yn y dyfodol?	
Beth fyddwch yn ei ddweud wrth bobl yn y dyfodol amdanaf i?	



## 11. Gweithgaredd: Tynnu llun fel ymchwil

Yn ystod eich ymweliad â'r safle neu'r adeilad, gosodwch dasg tynnu llun. Dyma rai awgrymiadau:

- ⇒ Tynnu llun o'r wlad o amgylch, gan dalu sylw i'r mynyddoedd, afonydd, coetiroedd, adeiladau gerllaw ac yn y blaen.
- ⇒ Tynnu llun siapau'r nodweddion pensaernïol fel ffenestri, drysau a nodweddion addurniadol.
- ⇒ Gwneud twll mewn darn o bapur i greu ffenestr. Dal y ffenestr bapur i fyny i fframio rhan o adeilad. Tynnu llun o'r hyn sydd yn y ffrâm.
- ⇒ Tynnu llun o'r deunyddiau: cerrig, briciau, pren, gwydr ac yn y blaen.
- ⇒ Creu siart lliw o'r lliwiau sydd yn bresennol yn yr adeilad.
- ⇒ Creu rhwbiad papur o unrhyw wead.
- ⇒ Casglu deunydd naturiol a thynnu llun ohono.
- ⇒ Chwilio am nodau ar yr adeilad, fel ysgythriadau, neu llythrennau – tynnwch lun ohonynt. Ceisiwch ddyngwared arddull deipograffeg ffurfiau'r llythrennau.

Beth am ddefnyddio llyfrau brasluniau *Crewyr Cadw: Archwilio Arts Award Explore* a *Darganfod Arts Award Discover* i ysbrydoli sut mae'r grŵp o ddysgwyr yn ymateb i'r safle yn artistig. Gellir lawrlwytho'r rhain, ac mae'n bosibl y byddan nhw ar gael fel adnoddau printiedig mewn safleoedd Cadw mwy o faint.



## 12. Adnoddau pellach yng nghyfres Crewyr Cadw: Celf Comics

Mae amrywiaeth o adnoddau ar gael ar gyfer y gyfres hon y gellir eu defnyddio ar wahân neu ynghyd fel sail i greu comics. Mae'r rhain yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau, o ysgrifennu stori a datblygu cymeriad, i archwilio sain mewn celf comics.

Mae templedi ar gyfer y gweithgareddau yn yr adnodd hwn ynghyd â stripiau comics, swigod siarad a thempledi mapiau ar gael hefyd. Mae'n bosibl lawrlwytho'r holl adnoddau o wefan Cadw: [Cadw.llyw.cymru/dysgu](http://Cadw.llyw.cymru/dysgu)

## 13. Alinio gwaith gyda'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Dyma rai syniadau ychwanegol am sut i alinio gwaith gyda Fframwaith Cymhwysedd Digidol Cwricwlwm i Gymru ar gyfer dysgwyr:

- ⇒ Ceisiwch ddefnyddio rhai o apiau Cadw, neu apiau sydd wedi eu cynllunio ar gyfer eich safle neu adeilad dewisol, i adeiladu hyder digidol a gwella'r ymweliad.
- ⇒ Defnyddiwch ddyfais ddigidol i gymryd ffotograffau o'r safle – golygfa bell ac agos. Gellir defnyddio delweddau wedi eu printio o fanylion pensaernïol fel deunydd collage yn ôl yn yr ysgol / y gweithdy.
- ⇒ Gwnewch recordiadau sain o'r safle.
- ⇒ Defnyddiwch ap gwneud comics i greu delweddau a chreu cofnod o'r ymweliad.
- ⇒ Defnyddiwch ffilter portread comics i greu cymeriad hunlun.
- ⇒ Defnyddiwch y we ar gyfer ymchwil.
- ⇒ Trydarwch artistiaid comics enwog gyda syniadau a dyluniadau. Cofiwch ddefnyddio'r hashtag #crewyrCadw.

## 14. Addasu ar gyfer dysgu cyfunol

Mae athrawon, disgyblion ac addysgwyr celf wedi arfer defnyddio ymagwedd at ddysgu cyfunol mewn lleoliadau ffurfiol ac anffurfiol. Mae dysgu cyfunol yn cefnogi dysgu'n ddigidol yn amgylchedd y cartref yn ogystal â mewn ystafell ddosbarth neu weithdy, ond mae hefyd yn cyflwyno cyfleoedd i osod gwaith yn yr awyr agored sy'n gadarnhaol ar gyfer gwella llesiant.

Mae gweithgareddau Crewyr Cadw wedi eu cynllunio i gael eu haddasu ar gyfer dysgu cyfunol gyda rhai rhannau o'r gweithgareddau ar gael ar gyfer yr ystafell ddosbarth neu weithdy, ac eraill ar gyfer dysgu adref. Mae gweithgareddau hefyd wedi eu cynllunio fel eu bod yn gallu cael eu defnyddio gyda'r amgylchedd adeiledig lleol, gan roi'r cyfle i ddysgwyr i gael amser creadigol i ffwrdd o'r sgrin, a gwella llesiant drwy fod yn yr awyr agored.

Gallwch lawrlwytho holl gomics Cadw i'w rhannu'n ddigidol, eu printio neu eu darllen ar y sgrin yn ôl eich dymuniad. Mae templedi eraill hefyd ar gael y gellir eu hanfon drwy e-bost i ddysgwyr a'u defnyddio'n electronig. Mae ein hadnoddau printadwy yn isel o ran defnydd o inc fel eu bod yn hygyrch yn y cartref neu'r ysgol ac mor amgylcheddol gyfeillgar ag sy'n bosibl.

## 15. Dathlu'r prosiect

Caiff datblygu prosiectau sy'n ddilys ei ystyried fel ymarfer gorau i ddysgu, nid lleiaf am fod hynny'n dueddol o ysbrydoli'r disgybl i ganolbwyntio ac i ddarparu cyfle i gyflwyno a dathlu unrhyw ddeilliannau creadigol neu ymchwil i gymuned go iawn.

Mae dathlu gwaith prosiect yn rhoi cyfleoedd hygyrch i ymgysylltu â rhieni, teuluoedd a'r gymuned ehangach o ran yr hyn mae pob disgybl unigol yn ei ddysgu.

Mae dathliad neu gyflwyniad yn ffordd dda o alluogi dysgwyr i fyfyrion neu feirniadu eu gwaith eu hunain, a gwaith eu cyd-ddysgwyr. Gellir gwneud hyn ar-lein, ond yn ddelfrydol mewn lleoliad cymunedol.

Dyma rai syniadau am ffyrdd o gyflwyno a dathlu'r gwaith. Gallai dysgwyr:

- ⇒ Ddylunio a gosod arddangosiad mewn amgueddfa, oriel neu ffenestr siop leol i rannu'r broses ymchwil ac unrhyw ddeilliannau creadigol. Mae ffenestri siopau gwag yn wych yn enwedig os oes oriau cyfyngedig gan orielau a llyfrgelloedd.
- ⇒ Printio'r stribedi comic neu hyd yn oed greu llyfr bach i'w rannu gyda ffrindiau a theuluoedd.
- ⇒ Cyflwyno eu gwaith i grŵp celfyddydau, treftadaeth neu hanes lleol, a gwahodd teuluoedd i ymuno.
- ⇒ Dylunio gwefan syml er mwyn rhannu'r holl broses ymchwil ac arddangos y gwaith celf gorffenedig.
- ⇒ Trydar am y prosiect, tagio artistiaid comics adnabyddus, sefydliadau treftadaeth a chelfyddydau. Gweld pwy sy'n ymateb ac at beth y mae hynny'n arwain ato. (Cofiwch ddefnyddio'r hashtag #crewrycadw.)
- ⇒ Gall dysgwyr uwchlwytho eu gwaith i Gasgliad y Werin Cymru ([peoplescollection.wales](http://peoplescollection.wales))

## 16. Myfyrio a dysgu

Agwedd allweddol o fframweithiau Cwricwlwm i Gymru ac Arts Award yw myfyrio gyda'r myfyrwyr ar eu taith a'r hyn maen nhw wedi ei ddysgu o'r broses. Dyma rai syniadau am weithgareddau i helpu i hwyluso hyn:

- ⇒ Tynnwch lun y llinell amser cyfunol o'r daith i gael gwybod beth oedd uchafbwyntiau'r prosiect i'r dysgwyr.
- ⇒ Chwaraewch gemau i dynnu allan yr hyn wnaeth y dysgwyr ei fwynhau, beth fydden nhw'n ei wneud yn wahanol os bydden nhw'n gwneud y prosiect eto, a beth hofffen nhw gael rhagor ohono.
- ⇒ Hwyluswch drafodaeth, gyda gweithgareddau gemau, i wahodd y dysgwyr i roi sylwadau am beth maen nhw'n ei hoffi am waith ei gilydd.
- ⇒ Arweiniwch ymarfer map meddwl, gan wahodd y dysgwyr i adrodd y straeon neu'r ffeithiau maen nhw wedi eu dysgu.
- ⇒ Gwnewch gyfweiliad ar gamera o'r dysgwyr am eu prosiectau: gofynnwch iddyn nhw gyflwyno eu comic, beth maen nhw wedi ei ddysgu am y safle lleol, a'r hyn maen nhw wedi ei ddarganfod am gelf comics.

## 17. Dysgu pellach i bawb

Adnoddau addysgiadol pellach, teithiau digidol, ffilmiau treftadaeth 15 munud a syniadau ar gyfer prosiectau dysgu, yn cynnwys lliaws o gomics a gweithgareddau celf comics, ar gael ar ein gwefan: [Cadw.llyw.cymru/dysgu](http://Cadw.llyw.cymru/dysgu)

Dod o hyd i le i'w ymweld  
**[Cadw.llyw.cymru/ymweld](http://Cadw.llyw.cymru/ymweld)**

Cof Cymru  
Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru  
**[cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru](http://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru)**

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru  
Rhestr enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru  
**[rcahmw.gov.uk/discover/list-of-historic-place-names](http://rcahmw.gov.uk/discover/list-of-historic-place-names)**

Coflein - Catalog ar-lein o archaeoleg, adeiladau, treftadaeth ddiwyllianol ac arforol yng Nghymru  
**[Coflein.gov.uk](http://Coflein.gov.uk)**

Archwilio  
Cofnodion Amgylcheddol Hanesyddol Cymru  
**[Archwilio.org.uk](http://Archwilio.org.uk)**

Dod o hyd i adnoddau dysgu Cadw a nifer o sefydliadau eraill celfyddydol, treftadaeth a diwylliannol ar Hwb  
**[Hwb.cymru](http://Hwb.cymru)**

 **[@CadwWales](https://twitter.com/CadwWales)**

 **[@CadwWales](https://www.facebook.com/CadwWales)**

 **[@CadwCymruWales](https://www.instagram.com/CadwCymruWales)**